



COFNODION | MINUTES



Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf Community Council (CCLIME)
Llyfrgell Benllech Library
21.09.2026 @ 19:00

Cynghorwyr:
Councillors:

Iwan Kellett (IK) (Cadeirydd / Chair)
John Humphreys (JH) (Is-Gadeirydd / Vice Chair)
Huw G Owen (HGO)
Wenda Owen (WO)
Sioned Wyn (SW)
Olwen Green (OG)
Ieuan Williams (IW)
Rhodri Owen (RhO)
Gwyneth Davies (GD)
Rhian Mair Jones (RhMJ)
Eira Fôn Parry (EFP)

Clerc:
Clerk:

Laura Sutton (LS)

Cyfieithydd:
Translator:

Nid oedd angen cyfieithydd ar gyfer y cyfarfod hwn |
Translator was not required for this meeting.

1. Ymddiheuriadau | *Apologies*

Rhys Jones (RhJ)
Kevin Griffiths (KG)
Barbara Price (BP)

2. Datganiadau o Ddiddordeb | *Declarations of Interest*

Datganodd IK fuddiant yn eitem 6.5 a llofnododd ffurflen datganiad o fuddiant | *IK declared an interest in item 6.5 and signed a declaration of interest form.*

3. Cofnodion | *Minutes of the Previous Meeting*

Cofnodion cyfarfod 27/07/2026 | *Minutes of the meeting held 27/07/2026*

Cynigiwyd gan OG, eiliwyd gan JH, a chytunodd y Cyngor yn unfrydol i dderbyn y cofnodion fel cofnod cywir | *Proposed by OG, seconded by JH, and the Council unanimously agreed to accept the minutes as a true record.*

4. Cynllunio | *Planning*

4.1 - FPL/2026/141 Siop Y Cranc, Benllech
Caniatâd wedi'i roi | *Permission granted*

5. Materion y Cyngor a'r Gymuned | Council & Community Matters

i) Hyfforddiant | Training

Rhannodd y Clerc ddyddiadau'r cyrsiau hyfforddi sydd ar ddod gyda'r aelodau, ac anogwyd y Cynghorwyr i archebu cwrs. Nododd yr aelodau pa gyrsiau yr oeddent yn dymuno eu mynychu, a chytunwyd y byddai'r Clerc yn gwneud yr archebion ar eu rhan. | *The Clerk shared details of upcoming training dates with members, and Councillors were encouraged to book a course. Members indicated which courses they wished to attend, and it was agreed that the Clerk would make the bookings on their behalf.*

ii) Diweddariad ar y Prosiect Ardal Chwarae | Play Area Project Update

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar gynnydd y prosiect. Nodwyd bod y cais cynllunio yn mynd rhagddo, a bod y Cadeirydd a'r Clerc i gyfarfod â Llywodraethwyr yr Ysgol y dydd Mercher canlynol i rannu'r cynlluniau ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt. Rhannodd y Clerc fanylion clo diogelwch arfaethedig ar gyfer y giât, y gellir ei agor o'r tu mewn i'r parc er mwyn sicrhau y gall defnyddwyr adael yn ddiogel. Eglurodd y byddai hyn yn ychwanegu tua £1,000 at gost y prosiect. Trafododd y Cyngor y cynnig a phenderfynwyd y dylid cynnwys y clo diogelwch fel rhan o'r prosiect. Nododd y Cyngor hefyd y byddai angen rhoi trefniant clir ar waith ar gyfer pryd a sut y byddai'r parc yn cael ei agor a'i gloi. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn codi'r mater hwn gyda Llywodraethwyr yr Ysgol yn y cyfarfod sydd i ddod, rhag ofn bod ganddynt unrhyw awgrymiadau ynghylch trefniadau addas. | *The Chair provided an update on the progress of the project. It was noted that the planning application was progressing, and that the Chair and Clerk were due to meet with the School Governors the following Wednesday to share the plans and answer any questions they may have. The Clerk shared details of a proposed safety lock for the gate, which could be opened from inside the park to ensure users could exit safely. She explained that this would add approximately £1,000 to the overall project cost. The Council discussed the proposal and resolved that the safety lock should be included as part of the project. The Council also noted that a clear arrangement would need to be put in place regarding when and how the park would be opened and locked. It was agreed that the Clerk would raise this with the School Governors at the forthcoming meeting in case they had any suggestions regarding suitable arrangements.*

iii) Sul y Cofio | Remembrance Sunday

Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn trefnu'r digwyddiad gyda'r Clerc. Cadarnhaodd yr Is-Gadeirydd (JH) ei fod yn hapus i osod torch ac i gymryd rhan yn y digwyddiad. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn archebu dwy dorch fawr o flodau ffres, un goch a melyn ac un borffor a gwyn. Rhannodd RhMJ restr o'r bobl sydd fel arfer yn ymwneud â'r digwyddiad gyda'r Clerc a'r Cadeirydd. | *It was agreed that the Chair would organise the event with the Clerk. The Vice-Chair (JH) confirmed that he was happy to lay a wreath and be part of the event. It was agreed that the Clerk would order two large fresh flower wreaths, one red and yellow and one purple and white. RhMJ shared a list of people to contact who are usually involved with the event was shared with the Clerk and Chair.*

iv) Mabwysiadu Polisi Deallusrwydd Artiffisial (AI) | Adoption of Artificial Intelligence (AI) Policy

Penderfynodd y Cyngor fabwysiadu'r Polisi Deallusrwydd Artiffisial (AI). Atgoffodd RhO y Cyngor y dylid ystyried y Gymraeg wrth ddefnyddio AI a sicrhau bod unrhyw Gymraeg a gynhyrchir yn gywir. | *The Council resolved to adopt the Artificial Intelligence (AI) Policy. RhO reminded the*

Council that the Welsh language should be considered when using AI and that any Welsh-language content produced should be checked to ensure it is correct.

v) Banc Bwyd Môn | Anglesey Food Bank

Darllenodd y Cadeirydd y llythyr gan y Banc Bwyd Môn. Cytunodd yr aelodau yr hoffent ymweld â'r Banc Bwyd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut mae'n gweithredu a pha gymunedau sy'n elwa o'i wasanaethau. Penderfynwyd hefyd y dylai'r Clerc rannu gwybodaeth bod blwch casglu ar gyfer y Banc Bwyd yn Banks Hardware ac atgoffa'r gymuned y gallant gyfrannu yno. | *The Chair read out the letter from Anglesey Food Bank. Members agreed that they would like to visit the Food Bank to gain a better understanding of how it operates and which communities benefit from its services. It was also resolved that the Clerk should share information that Banks Hardware has a Food Bank collection box in store and remind the community that donations can be made there.*

vi) TCC – Adleoli'r System Gyfrifiadurol | CCTV – Relocation of Computer System

Penderfynodd y Cyngor dalu costau adleoli'r system TCC, sef £957.24, er mwyn cael y camerau yn ôl ar-lein cyn gynted â phosibl i helpu i gadw'r gymuned yn ddiogel a chynorthwyo'r Heddlu gyda'u hymchwiliadau. Nododd y Cyngor ei bod yn siomedig bod y TCC wedi bod all-lein am gymaint o amser. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu eto â'r cwmni cynnal a chadw TCC i gael eglurder ynghylch y gwasanaeth a ddarperir ganddynt a pha mor gyflym y dylent ymateb i ddigwyddiadau o'r fath. | *The Council resolved to pay the relocation costs of £957.24 in order to get the CCTV cameras back online as soon as possible to help keep the community safe and assist the Police with their investigations. The Council noted that it was disappointing that the CCTV had been offline for so long. It was agreed that the Clerk would follow up with the CCTV maintenance company for clarity regarding the service they provide and how quickly they should respond to incidents such as this.*

6. Cyllid | Finance

6.1 Trafodion Diweddar | Recent Transactions

14/07/2026	Credit	Mynwent Cemetery	Other Income	£116.00	£6,217.30
14/07/2026	d/d	Plan.com (Ffôn)	Expenses	£25.97	£6,191.33
23/07/2026	S/O	Cyflog y Clerc Salary	COSTAU STAFF / STAFF COSTS	£1,969.75	£4,221.58
23/07/2026	d/d	HMRC SDDS PAYE	COSTAU STAFF / STAFF COSTS	£2,100.38	£2,121.20
30/07/2026	S/O	Pensiwn Pension	COSTAU STAFF / STAFF COSTS	£491.12	£1,630.08
05/08/2026	TF	TF i fewn / in	TRANSFER	£5,000.00	£6,630.08
05/08/2026	PYMT	Archwilio Cymru Audit Wales	Expenses	£605.83	£6,024.25
05/08/2026	PYMT	Cyfieithydd Translator	Expenses	£59.70	£5,964.55
14/08/2026	PYMT	Archwilio Cymru Audit Wales	Expenses	£512.70	£5,451.85
14/08/2026	d/d	Plan.com (Ffôn)	Expenses	£25.97	£5,425.88
19/08/2026	TF	TF i fewn / in	TRANSFER	£3,000.00	£8,425.88
19/08/2026	PYMT	Cyngor Gwynedd Archwiliad Mewnol Internal Audit	Expenses	£432.00	£7,993.88
19/08/2026	PYMT	vinyls4U - cardiau bach cymraeg yr Dafarn	Expenses	£218.09	£7,775.79
21/08/2026	PYMT	Dewisn Architecture - Cynllunio Planning	Expenses	£2,524.50	£5,251.29
24/08/2026	Credit	PRECEPT #2	PRECEPT	£25,228.46	£30,479.75
24/08/2026	PYMT	Cyflog y Clerc Salary	COSTAU STAFF / STAFF COSTS	£1,969.95	£28,509.80
28/08/2026	d/d	NATWEST CC	Expenses	£23.98	£28,485.82
01/09/2026	S/O	Pensiwn Pension	COSTAU STAFF / STAFF COSTS	£491.12	£27,994.70
08/09/2026	Credit	Mynwent Cemetery	Other Income	£116.00	£28,110.70

Balans y Gronfa Wrth Gefn | Reserve Balance: £47,781.62

Balans y Cerdyn Credyd | Credit Card Balance: £111.99

Penderfynodd y Cyngor fod y trafodion yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor a'u bod yn briodol ac yn gywir. Roedd y Cyngor yn fodlon â'r balansau a phenderfynwyd awdurdodi'r Clerc i drosglwyddo £15,000 o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif wrth gefn | *The Council resolved that the*

transactions were in accordance with the Council's Financial Regulations and were appropriate and accurate. The Council was satisfied with the balances and resolved to authorise the Clerk to transfer £15,000 from the current account to the reserve account.

6.2 Cymodi Banc | Bank Reconciliation

Rhannwyd y cysoniad banc a'r datganiadau banc gyda'r Cyngor. Adolygodd yr Is-Gadeirydd (JH) y dogfennau a llofnododd y cysoniad i gadarnhau bod y ffigurau'n cyfateb i'r datganiadau banc a ffigurau'r llyfr arian | *The bank reconciliation and bank statements were shared with the Council. The Vice-Chair (JH) signed the reconciliation to confirm that the figures matched the bank statements and cashbook figures.*

6.3 Taliadau a Grantiau | Payments & Grants

- Archwilio Mewnol | *Internal Audit 2025–2026 – £432 – taliad wedi'i wneud o dan awdurdod dirprwyedig | payment made under delegated authority.*
- Archwilio Allanol | *External Audit 2023–2024 – £512.70 – taliad wedi'i wneud o dan awdurdod dirprwyedig | payment made under delegated authority.*
- Archwilio Allanol | *External Audit 2024–2025 – £914.43.*
- DEWIS – £1,750 + TAW | VAT – *ffi prosesu cais cynllunio | planning application processing – wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw gan y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf | approved by full Council in July.*
- Ffioedd Cais Cynllunio | *Planning Application Fees – £409.33 + VAT – taliad wedi'i wneud o dan awdurdod dirprwyedig | payment made under delegated authority.*
- Blachere – Coed Nadolig | *Christmas Trees – £2,085.04, gyda £1,635 yn weddill ar y contract | with £1,635 remaining on the contract.*
- Wicksteed – Atgyweirio llawr y parc | *Park floor repairs – £1,015.38 – taliad wedi'i wneud o dan awdurdod dirprwyedig | payment made under delegated authority.*

Cymeradwywyd yr holl daliadau a gyflwynwyd, gan gynnwys y taliadau a wnaed eisoes i'w cymeradwyo'n ôl-weithredol a'r taliadau oedd eto i'w gwneud. Penderfynodd y Cyngor ei fod yn fodlon â'r holl daliadau a gyflwynwyd ac awdurdodwyd talu unrhyw anfonebau oedd yn weddill | *All payments presented were approved, including payments already made for retrospective approval and payments still to be made. The Council resolved that it was satisfied with all payments presented and authorised payment of any outstanding invoices.*

Coeden Nadolig Brynteg | Brynteg Christmas Tree

Derbyniwyd cais gan drigolyn yn gofyn a fyddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon darparu coeden Nadolig i Frynteg eleni. Nodwyd bod trigolion wedi ariannu coeden eu hunain yn ystod y blynyddoedd diwethaf. | *A request has been received from a resident asking whether the Community Council would be willing to provide a Christmas tree for Brynteg this year. It was noted that residents have self-funded a tree in recent years.*

Cynigiodd IW y dylid rhoi £200 i Grŵp Cymunedol Brynteg tuag at gost eu coeden Nadolig, eiliwyd y cynnig gan OG, a chytunodd y Cyngor llawn yn unfrydol. Cytunwyd hefyd, pe bai grwpiau cymunedol Traeth Coch neu Llanbedrgoch yn gwneud cais am gyllid tuag at eu coed Nadolig, y byddai'r Cyngor yn ystyried y ceisiadau hynny | *IW proposed that £200 be awarded to the Brynteg Community Group towards the cost of their Christmas tree, the proposal was seconded by OG, and the full Council agreed unanimously. It was also agreed that, should the Red Wharf Bay or Llanbedrgoch community groups apply for funding towards their Christmas trees, the Council would consider those requests.*

6.4 Cytundeb Dyfarniad Cyflog NJC 2026/27 | NJC Pay Award Agreement 2026/27

Cytunwyd bod Dyfarniad Cyflog NJC 2026/27, gan gynnwys yr ôl-daliad o £417.64 a'r adolygiad o'r raddfa gyflog, yn gywir ac wedi'i gymeradwyo i'w dalu. Nodwyd bod y Pwyllgor Adnoddau Dynol i gyfarfod i adolygu perfformiad, cyflog a gwaith y Clerc | *It was agreed that the NJC Pay Award 2026/27, including back pay of £417.64 and the pay scale review, was correct and approved for payment. It was noted that the HR Committee was due to meet to review the Clerk's performance, pay and work.*

6.5 Cerrig Enwi | Naming Stones

Datganodd IK fuddiant yn yr eitem hon a gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth | *IK declared an interest in this item and left the room during the discussion.*

Derbyniwyd dyfynbris gan Aber Quarry o £900 heb gynnwys TAW ar gyfer carreg enw Llanfair Mathafarn Eithaf. Roedd y Cyngor yn fodlon â'r dyfynbris a chytunwyd y byddai'r Clerc yn bwrw ymlaen â'r broses o drefnu'r garreg enw. Cynigiodd SW efallai na fyddai carreg enw yn briodol ar gyfer 'Lôn Bwlch' ac y byddai arwydd yn hytrach na charreg yn fwy addas ar gyfer y ffordd hon. Cytunodd y Cyngor. Cytunwyd y byddai IK a'r Clerc yn trafod yr arwydd a'r geiriad ar gyfer 'Lôn Bwlch', gan gydnabod arwyddocâd hanesyddol yr enw. Cytunwyd hefyd y byddai cod QR yn ychwanegiad defnyddiol i'r arwydd, gan gyfeirio pobl at wefan y Cyngor i gael rhagor o wybodaeth am hanes 'Lôn Bwlch' | *A quotation of £900 excluding VAT was received from Aber Quarry for the Llanfair Mathafarn Eithaf naming stone. The Council was satisfied with the quotation and agreed that the Clerk should proceed with the process of arranging the naming stone. SW proposed that a naming stone may not be appropriate for 'Lôn Bwlch' and that a sign rather than a stone would be more suitable for this road. The Council agreed. It was agreed that IK and the Clerk would discuss the signage and wording for the 'Lôn Bwlch' sign, recognising the historical significance of the name. It was also agreed that a QR code would be a useful addition to the sign, directing people to the Council's website for further information about the history of 'Lôn Bwlch'.*

7. Adroddiad y Cynghorydd Sir | County Councillor Report

Rhoddodd y Cynghorydd Sir IW ddiweddariad i'r Cyngor ar faterion perthnasol gan Gyngor Sir Ynys Môn. Nododd y Cyngor y diweddariad | *County Councillor IW provided the Council with an update on relevant matters from the Isle of Anglesey County Council. The Council noted the update.*

8. Unrhyw faterion nad ydynt ar yr agenda | Any Additional Matters Discussed, not on the agenda.

Nododd GD ei bod yn parhau i deimlo'n rhwystredig ynghylch y parcio peryglus y tu allan i 'The Shed'. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn mynd ar drywydd yr ymholiad a anfonwyd at yr Adran Briffyrdd ym mis Gorffennaf i ofyn am unrhyw ddiweddariad | *GD noted that she remained frustrated about the dangerous parking outside 'The Shed'. It was agreed that the Clerk would chase the enquiry sent to Highways in July for any update.*

Daeth y cyfarfod i ben am: 20:45
The meeting ended at: 20:45

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal: 26/10/2026
The next meeting will be held: 26/10/2026